**EITEM AR YR AGENDA : 4**

# GWASANAETH TÂN GOGLEDD CYMRU

## ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 27ain Hydref 2003 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Cyflwyno Cynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod Tân i'r Aelodau, ac iddynt gymeradwyo'r newid enw. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yn Rhagfyr 2002 gwnaeth y Dirprwy Brif Weinidog hi'n glir y dylai bod rhaglen o ddiwygio a moderneiddio o'r fframwaith y mae'r gwasanaeth tân yn ei gweithredu. Elfen allweddol i'r rhaglen honno oedd yr angen i lunio Cynlluniau Integredig Rheoli Risg (Cynlluniau Risg) yr awdurdod tân.

1.2 Diben y papur hwn yw cyflwyno'r Cynllun Risg drafft sydd ynghlwm ac argymell i'r Awdurdod gymeradwyo'r Cynllun Risg a'r Cynllun Gweithredu, ac unwaith y bydd wedi ei gymeradwyo, awdurdodi'r Prif Swyddog Tân i gyhoeddi a dosbarthu'r cynllun fel rhan o'r drefn ymgynghorol sy'n cael ei argymell gan y Llywodraeth.

1.3 Hefyd, gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo newid yr enw i "Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru" yn unol â bwriadau'r Llywodraeth yn y Papur Gwyn.

2. **TREFN Y CYNLLUN RISG**

2.1 Cafodd gweithgor Cynllun Risg y Panel Gweithredol ei gyfarfod sefydlu ar 19eg Mai 2003 ac ers hynny mae wedi cadw at amserlen lem o 11 cyfarfod a ddaeth i ben ar 7fed Hydref.

2.1 Roedd rhaid i'r gyfres yma o gyfarfodydd lunio Cynllun Risg i wireddu amcanion sylfaenol y Llywodraeth sef: -

- Gostwng nifer y tanau a'r digwyddiadau brys sy'n digwydd;
- Gostwng nifer y marwolaethau mewn tanau a digwyddiadau brys eraill;
- Gostwng nifer a difrifoldeb yr anafiadau mewn tanau a digwyddiadau brys eraill;
- Lleihau effaith fasnachol, economaidd a chymdeithasol tanau a digwyddiadau brys eraill;
- Gwarchod yr amgylchedd a'r dreftadaeth (rhai adeiledig a naturiol); a
- Rhoi gwerth am arian i gymunedau.

2. **TREFN Y CYNLLUN RISG** *(parhad)*

2.2 Defnyddiodd y gweithgor y drefn gynllunio pedair cam a argymhellwyd, er mwyn strwythuro trefn y Cynllun Risg. Dyma'r camau:-

- Nodi'r risgiau presennol.
- Gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau presennol.
- Nodi'r cyfleoedd i wella a fydd yn pennu polisïau a safonau.
- Pennu anghenion o ran adnoddau er mwyn ateb y polisïau a'r safonau.

2.3 Y Cynllun Risg drafft hwn yw penllanw'r gwaith dwys rhwng Aelodau a swyddogion dros y 6 mis diwethaf.

3. **NEWID YR ENW**

3.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod y Llywodraeth, yn ystod y drefn o lunio'r Cynllun Risg, wedi cyhoeddi ei gweledigaeth ar gyfer dyfodol y gwasanaeth tân mewn Papur Gwyn o'r enw "Our Fire and Rescue Service".

3.2 Ar ddechrau un y Papur Gwyn nodwyd bwriad y Llywodraeth i newid enw'r Gwasanaeth Tân er mwyn ymgorffori'r gwaith achub, sydd bellach yn rhan sylweddol o'r gwasanaeth a roddir i'r cyhoedd. Felly byddai'r enw'n adlewyrchu hyn ac yn dod yn Wasanaeth Tân ac Achub.

3.3 Mae sawl Brigâd eisoes wedi mabwysiadu'r teitl yma gan gynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

3.4 Amcangyfrifir y byddai'r gost i Wasanaeth Tân Gogledd Cymru o newid yr holl arwyddion, lifrai a deunyddiau ysgrifennu, ar unwaith oddeutu £47,000. Fodd bynnag, pe cyflwynwyd y newid enw yn raddol byddai modd cadw'r costau i isafswm a ellid ei amsugno o fewn y gyllideb.

4. **ARGYMHELLION**

4.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

4.2 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Cynllun Risg a'r Cynllun Gweithredu drafft.

4.3 Bod yr Aelodau'n awdurdodi'r Prif Swyddog Tân i gyhoeddi'r adroddiad ac yn ymgynghori ar ei gynigion.

4.4 Bod yr Aelodau yn cymeradwyo newid yr enw i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.